



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28



Rhagair

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn darparu graddau a gydnabyddir yn broffesiynol, ynghyd ag ymchwil ac arloesi effeithiol, mewn celf a dylunio, busnes a rheolaeth, addysg, chwaraeon a gwyddorau iechyd, a thechnolegau a pheirianeg.

Gallwn olrhain ein hanes yn ôl i 1865, pan agorodd yr Ysgol Gelf am y tro cyntaf yn yr Hen Lyfrgell Rydd yng Nghaerdydd. Ar hyn o bryd rydym yn cyflogi tua 1,900 o staff academiaidd a gwasanaethau proffesiynol ac mae gennym 13,000 o fyfyrwyr yn astudio ar draws ein dau gampws: Campws Llandaf a Champws Cyncoed.

Fel corff rhestredig yng Nghymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i'r Brifysgol lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol o leiaf unwath bob pedair blynedd. Mae'r Cynllun yn nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni ein hymrwymiad i gydraddoldeb a sut y byddwn yn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol a gynhwysir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

At hynny, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd. Er efallai nad oes gan Sefydliadau Addysg Uwch y ddyletswydd hon arnynt, rydym yn cydnabod y rôl sylweddol y mae prifysgolion yn ei chwarae wrth lunio dyfodol hirdymor Cymru gan gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol. Er bod rhai o'r nodau llesiant yn ymwneud yn benodol â chydraddoldeb, rydym yn cydnabod, trwy weithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a natur groestoriadol ein hamcanion, y byddwn yn gallu cyfrannu'n sylweddol at bob nod llesiant.

Mae datblygu'r cynllun hwn nid yn unig yn caniatáu i ni fod yn atebol i gwrdd â'n rhwymedigaethau cyfreithiol ond hefyd yn caniatáu i ni amlygu ein huchelgeisiau cydraddoldeb wrth symud ymlaen fel Sefydliad Addysg Uwch, gan adeiladu ar seiliau ein cynlluniau blaenorol.

A portrait of Yr Athro Julia Longville, a woman with short dark hair, smiling, wearing a dark blue blazer over a white top. In the background, there is a faint, circular graphic containing images of students and a graduation cap, with blue hexagonal patterns around it.

Yr Athro Julia Longville

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb,
Amrywiaeth a Chynhwysiant
Deon Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd

Ymrwymiad:

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, gan roi cyfle i bob unigolyn gyflawni ei botensial, heb ragfarn a gwahaniaethu. Er mwyn gwneud y gorau o'n talent, mae angen i'n myfyrwyr a'n staff gyrraedd eu potensial trwy weithio'n effeithiol gyda'n timau a'n partneriaid ar y campws ac oddi arno i ddarparu gwasanaeth eithriadol i'n holl bobl.

Byddwn yn defnyddio ein cefndiroedd amrywiol i wella gwybodaeth broffesiynol, dod â her a safbwyntiau newydd i'r hyn a wnawn ar y campws. Bydd hyn yn ein helpu i feithrin gallu a chefnogi ein myfyrwyr a'n staff. Mae sefydliadau sy'n cofleidio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn sicrhau gwell canlyniadau, staff mwy brwdfrydig, mwy o gydnabyddiaeth gan eu sefydliadau partner a mwy o arloesi.

Mae pob aelod o staff dysgu, addysgu, ymchwil ac arloesi yn chwarae rhan bwysig wrth ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym yn adeiladu cymuned sy'n rhydd rhag gwahaniaethu a thriniaeth annheg. Rydym yn gwneud hyn drwy:

- drin yr holl fyfyrwyr a staff yn deg;
- creu diwylliant cynhwysol ar gyfer yr holl fyfyrwyr a staff;
- meithrin diwylliant o berthyn;
- sicrhau mynediad cyfartal i gyfleoedd i alluogi myfyrwyr i gymryd rhan lawn yn y broses ddysgu;
- galluogi'r holl fyfyrwyr a staff i ddatblygu i'w llawn botensial;
- rhoi'r sgiliau i fyfyrwyr a staff i herio anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn eu hamgylchedd gwaith ac astudio;
- gwneud yn siŵr nad yw unrhyw ddeunyddiau dysgu yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolion neu grwpiau;
- sicrhau nad yw polisïau, gweithdrefnau a phrosesau yn gwahaniaethu.

Strategaeth 2030

Mae Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn brifysgol flaengar. Rydym yn gwneud economïau yn fwy llewyrchus, cymdeithasau'n decach, diwylliannau'n gyfoethocach, amgylcheddau'n wyrddach a chymunedau'n iachach. Mewn partneriaeth â'n myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid rydym yn trawsnewid bywydau unigol, Cymru a'r byd ehangach trwy addysg effaith uchel o ansawdd uchel wedi'i llywio gan ein hymchwil a'n harloesedd blaengar.

Mae ein **Strategaeth 2030**, yn canolbwyntio ar alluogi ein myfyrwyr, staff a phartneriaid i gyflawni eu cyfleoedd bywyd a rhai'r cymunedau a'r economïau y maent yn perthyn iddynt. Er mwyn galluogi hyn, ein nod yw gwreiddio ein pedwar gwerth a phedwar ymddygiad o fewn cymuned ein prifysgol.

Gwerthoedd	Ymddygiadau
1. Creadigrwydd	1. Arweinyddiaeth
2. Arloesedd	2. Dewrder
3. Cynwysoldeb	3. Atebolrwydd
4. Ymddiriedolaeth	4. Ystwythder

Gan gydnabod y croestoriad rhwng ffactorau sy'n eithrio o addysg a manteision ac effeithiau addysg, byddwn yn parhau i fynd i'r afael â gwahaniaethu. Byddwn yn parhau i chwalu rhwystrau diwylliannol, gan wneud ein cymuned yn fwy cynhwysol a chynrychioliadol o'r rhai yr ydym yn ceisio eu gwasanaethu. Byddwn yn datblygu ein pobl i adlewyrchu ein cymunedau amrywiol, gan fuddsoddi mewn adeiladu'r sgiliau a'r priodoleddau sydd eu hangen i weithio'n deg ag unigolion a grwpiau o bob cefndir yng Nghymru, y DU ac yn fyd-eang.



Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28

Ein gweledigaeth yw:

Nod Met Caerdydd yw bod yn fan lle mae holl aelodau ein cymuned yn teimlo eu bod yn cael croeso a'u bod yn cael eu cynnwys er mwyn cyflawni eu potensial.

Gan adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan ein cynllun blaenorol, bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 hwn yn herio'r Brifysgol ar draws yr holl feysydd a gweithgareddau, gan osod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog iddi.

Bydd y Brifysgol yn galluogi ein harweinwyr i ddarparu arweinyddiaeth strategol a gweithredol i dimau ar draws y Brifysgol fel y gallwn sicrhau canlyniadau sy'n arwain y sector i'n myfyrwyr, gan feithrin diwylliant ac amgylchedd sefydliadol lle gall pawb gyflawni eu potensial academiaidd a phroffesiynol llawn.

Bydd dull sy'n cael ei yrru gan ddata yn cael ei fabwysiadu, wedi'i ategu gan ffocws ar ansawdd data i sicrhau bod data cadarn a chywir ar gael i lywio blaenoriaethau a dangos effaith.

Yn ogystal â herio a dal y Brifysgol yn atebol, bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ceisio nodi synergedd â'n Strategaeth 2030 ochr yn ochr â'i strategaethau galluogi a thematig a'u DPA yn ogystal â blaenoriaethau EDI lleol, rhanbarthol a DU gyfan.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 wedi'i adeiladu o amgylch y thema ganolog o berthyn a fydd yn ein helpu i gyflawni ein dyheadau. Byddwn yn ymdrechu i gael prifysgol sy'n adlewyrchu ein cymuned, yn hyrwyddo gwneud penderfyniadau teg ac yn hyrwyddo arloesedd. Man lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn a lle gallant gyflawni eu llawn botensial.



Source: Krys Burnette, "Belonging: A Conversation about Equity, Diversity and Inclusion," Jan. 21, 2019

Ein Hamcanion Cydraddoldeb 2024-28

Mae ein Hamcanion Cydraddoldeb yn cael eu dylanwadu gan y blaenoriaethau a ddiffinnir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), disgwyliadau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a chanfyddiadau ymchwil fewnol a gomisiynwyd gan y Brifysgol. Hysbysir ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol drwy ymgynghori â myfyrwyr, staff a'r gymuned ehangach ac mae'n barhad o waith o gynlluniau Cydraddoldeb Strategol blaenorol.

Nodwyd pum amcan trosfwaol:

1

Amcan 1: Cymryd agwedd sy'n canolbwyntio ar bobl, gan ddeall anghenion ein cymuned amrywiol a gosod hyn ar flaen dylunio a chyflawni swyddogaethau'r Brifysgol.



- Cefnogi mwy o gynhwysiant a mynediad i addysg.
- Sicrhau bod profiad ein myfyrwyr a'n staff yn darparu amgylchedd addysgol cynhwysol yn ddiwylliannol sy'n grymuso.
- Buddsoddi yn ein Hymchwylwyr Ôl-raddedig, Ôl-ddoethurol a Gyrfa Gynnar.
- Cefnogi datblygiad gwybodaeth a sgiliau i alluogi aelod o gymuned y Brifysgol i gyflawni eu huchelgeisiau.
- Ymgorffori hygyrchedd a mabwysiadu a gweithredu trwy lens y Model Cymdeithasol o Anabledd.
- Creu ail adnodd integredig i olrhain taith y myfyriwr ac i ddatblygu llythrennedd data i staff gael cyrchu a defnyddio'r data hwn.

2

Amcan 2: Hyrwyddo a gwreiddio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Brifysgol.



- Adolygu a sefydlu strwythur priodol i sicrhau bod CACh wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau a pholisi.
- Parhau i asesu effaith polisiau a chynlluniau, tra'n ystyried lechyd a Llesiant myfyrwyr a staff.
- Gwellu ein perthynas â chymuned y Brifysgol, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u cynnwys yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Cefnogi gweithrediad Cynllun CACh Bwrdd y Llywodraethwyr.

3

Amcan 3: Hyrwyddo a datblygu amgylchedd diogel, cefnogol a theg.



- Ystyried materion croestoriad gan ystyried sut rydym yn cefnogi ein poblogaeth amrywiol o staff a myfyrwyr.
- Sicrhau cydweithio parhaus a rhannu arfer gorau'r sector mewn perthynas ag lechyd a Llesiant.
- Adeiladu ar ein gwaith parhaus Athena Swan a Siarter Cydraddoldeb Hiliol, gan gefnogi rhoi cynlluniau gweithredu perthnasol ar gyfer y brifysgol gyfan ar waith.
- Cefnogi cyflwyniad Cynlluniau Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru a LGBTQ+ Llywodraeth Cymru.
- Parhau i gryfhau dulliau ataliol o fynd i'r afael â thrais, aflonyddu a cham-drin staff, myfyrwyr ac ymwelwyr, ar bob ffurf, waeth beth fo'u hunaniaeth,
- Adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn lleol ac yn genedlaethol a chefnogi eu hanghenion trwy hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.
- Parhau i ddatblygu rhaglen fywiog a chynhwysol os bydd cyfleoedd i wella integreiddio rhwng staff a myfyrwyr cartref a rhyngwladol.
- Cefnogi ac adeiladu ar ein statws Prifysgol Noddfa.

4

Amcan 4: Arwain y ffordd fel Sefydliad Addysg Uwch cynhwysol ac amrywiol a chyflogwr



- Parhau i ddatblygu a gwella ein data cydraddoldeb a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata.
- Cyhoeddi gwybodaeth briodol am Fylchau Cyflog CACH a defnyddio arfer gorau'r sector i fynd i'r afael â materion a nodwyd.
- Parhau i asesu effeithiau parhaus coronafeirws ar aelodau cymuned Met Caerdydd a rhoi cymorth ar waith yn briodol.
- Darparu dysgu a datblygu sy'n hygyrch, yn berthnasol, yn ddeniadol ac wedi'u llywio gan gynllunio gweithlu strategol a datblygu talent.
- Adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn lleol ac yn genedlaethol.
- Monitro a chefnogi gweithrediad y prosiect trawsnewid recriwtio, yn benodol y system e-recriwtio newydd, i sicrhau proses fwy effeithlon a chynhwysol.

5

Amcan 5: Ymgysylltu â'n Cymuned



- Cynyddu ein cydweithrediad â phartneriaid a'n cymuned leol.
- Alinio â'r bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach ranbarthol i gyflwyno cyrsiau yn y gymuned ac ar y campws i godi dyheadau a hyrwyddo dilyniant i Addysg Uwch.
- Gweithio gyda'n cymuned i gyflwyno amrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol sy'n defnyddio'r holl brofiad prifysgol a fydd yn sail i'n hymrwymiad i amrywiaeth, rhyddid ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Mae'r camau gweithredu sy'n dod o dan bob un o'r amcanion trosfwaol wedi'u hamlinellu'n fanylach yn y Cynllun Gweithredu Gweithredol, gan ddangos ein huchelgeisiau wrth i ni symud ymlaen i'r cyfnod newydd hwn, gan osod CACH wrth galon ein gweithgareddau.

Sut y gwnaethom ddatblygu ein hamcanion cydraddoldeb

Er mwyn datblygu ein hamcanion cydraddoldeb o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, fe wnaethom gynnal ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu i alluogi cymuned ein Prifysgol i lywio a datblygu'r cynllun a'i amcanion cysylltiedig.

Y prif ddull o ymgynghori oedd arolwg hygyrch a gafodd ei gyfathrebu drwy sianeli a rhwydweithiau mewnol. Chwaraeodd Pwyllgor CACH y Brifysgol ran arwyddocaol hefyd wrth lunio'r amcanion.



Rydym hefyd wedi ymgynghori ac ymgysylltu drwy:

- Arolwg Pwls 2022
- Gweithgor Rhyng-ffydd Staff a Myfyrwyr
- Pwyllgor CACH y Brifysgol
- Cynrychiolwyr Athena SWAN
- Bwrdd y Llywodraethwyr
- Cynrychiolwyr Siarter Cydraddoldeb Hiliol
- Undebau Llafur
- Cynrychiolwyr Rhwydwaith Staff
- Data Meincnodi (Cyfrifiad a HESA)
- Undeb y Myfyrwyr
- Grwpiau Ffocws a Chylchoedd Gwrandod

Yn ogystal ag ymgysylltu ag aelodau o'n cymuned ym Met Caerdydd i ddatblygu'r amcanion cydraddoldeb, maent hefyd wedi cael eu llywio gan adroddiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), adroddiadau'r sector AU

(Advance HE a Universities UK), adroddiadau sector Llywodraeth Cymru. , a strategaethau mewnol fel ein Strategaeth Prifysgol 2030 a'i strategaethau galluogi a thematig cysylltiedig.

Cyflawni a Monitro ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cyflawni

Bydd y camau gweithredu a amlinellir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael eu cyflawni drwy gynllun gweithredu gweithredol a amlinellir yn y ddogfen hon.

Monitro

Cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r bydd effeithiolrwydd y camau gweithredu cysylltiedig yn cael ei fonitro a'i adolygu gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Brifysgol sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mabwysiadir ymagwedd ymarfer sy'n cael ei gyrru gan ddata, wedi'i hategu gan ffocws ar ansawdd data i sicrhau bod data cadarn a chywir ar gael i lywio blaenoriaethau a dangos effaith. Bydd cynnydd a diweddariadau yn cael eu rhannu ag arweinwyr y Brifysgol a'u hadrodd drwy ein strwythurau Llywodraethu CACH. Bydd cynnydd hefyd yn cael ei ddogfennu a'i gyhoeddi yn Adroddiad Blynnyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol fel sy'n ofynnol gan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sydd ar gael ar dudalennau gwe allanol y Brifysgol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei drin fel 'dogfen fyw' a bydd yn cael ei fonitro'n agos drwy gydol ei oes, gan ymateb lle bo'n briodol i heriau sy'n datblygu ac yn ogystal â newidiadau i bolisiau ac arferion y DU gyfan.

Llywodraethu CACH ym Met Caerdydd

Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Nod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yw hyrwyddo a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y Brifysgol. Mae'r pwyllgor yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Academaidd ar gyflawni'r cyfrifoldeb hwn ac mae'n goruchwyllo Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol. Mae'r pwyllgor yn dod â rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r Brifysgol ynghyd i fonitro cynnydd o ran bodloni dyletswydd gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol arall, gan sicrhau y cyflawnir targedau ac amcanion strategol.

Bwrdd Academaidd

Mae'r Bwrdd Academaidd yn Bwyllgor o Fwrdd y Llywodraethwyr ac mae'n gyfrifol am gynghori'r Is-Ganghellor a Bwrdd y Llywodraethwyr. Y Bwrdd Academaidd yw awdurdod academaidd y Brifysgol a'i uwch gorff gwneud penderfyniadau ar gyfer adnoddau sy'n cefnogi'r Brifysgol ar lefel strategol.

Grŵp Gweithredol y Brifysgol

Mae aelodaeth Grŵp Gweithredol y Brifysgol (GGB) yn cynnwys uwch dîm arwain y Brifysgol ac yn cynorthwyo'r Is-Ganghellor.

Bwrdd y Llywodraethwyr

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn cynnwys aelodau allanol (lleyg) a mewnol, gyda mwyafrif lleyg; mae ganddynt gyfrifoldeb am gymeriad addysgol a chenhadaeth ein prifysgol, yn ogystal â bod â throsolwg o'i gweithgareddau.

Mae swyddogaethau allweddol y Bwrdd yn cynnwys ystyried a chymeradwyo ein cynllun strategol, sy'n gosod nodau ac amcanion ein prifysgol, a goruchwyllo'r strategaethau ariannol, ffisegol a staffio sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun hwn.

Cynllun Gweithredu

Amcan 1: Cymryd agwedd sy'n canolbwyntio ar bobl, gan ddeall anghenion ein cymuned amrywiol a gosod hyn ar flaen y gad wrth ddylunio a chyflawni swyddogaethau'r Brifysgol.

Cam Gweithredu	Canlyniad
Thema: Profiad Met Caerdydd	
Cefnogi mwy o gynhwysiant a mynediad i addysg trwy ymestyn cyfleoedd dysgu y tu hwnt i'n cynigion israddedig ac ôl-raddedig traddodiadol.	- Yn unol â'r Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Ymgysylltu â Myfyrwyr, byddwn yn ceisio ehangu amrywiaeth ein myfyrwyr. - Byddwn yn ceisio cynnig portffolio mwy amrywiol gan gynnwys; cyrsiau byr, prentisiaethau gradd a micro-gymhwysterau, gan gynnwys trwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy addysg drawswladol.
Sicrhau bod pob myfyriwr, waeth beth fo'i nodweddion personol, yn cael yr un cyfle i lwyddo.	Darperir cymorth academiaidd a llesiant teg i bob myfyriwr trwy gydol eu taith fel myfyriwr gan ganiatáu iddynt gyrraedd eu huchelgeisiau.
Sefydlu Fforwm Dysgu ac Addysgu Cynhwysol sy'n hygyrch i'r holl staff, yn gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo adnoddau ar gyfer dysgu ac addysgu cynhwysol.	Yn unol â'r Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Ymgysylltu â Myfyrwyr byddwn yn cynyddu gweithrediad arferion dysgu ac addysgu cynhwysol gan staff.
Creu adnodd data integredig i olrhain taith y myfyriwr dros gylch oes y myfyrwyr, y gellir ei archwilio ar gyfer grwpiau amrywiol o fyfyrwyr a rhyng-gysylltiadau, o gymhwyso i ganlyniadau graddedigion. Datblygu llythrennedd data ar gyfer staff i gyrchu a defnyddio'r data hwn.	- Sefydlu rhyngwyneb data hawdd ei ddefnyddio ar gyfer cylch oes myfyrwyr, gan dargedu mwy o ymyriadau tuag at feysydd angen. - Byddwn yn cefnogi mynd i'r afael â bylchau dyfarnu presennol a chanlyniadau graddedigion.

Buddsoddi yn ein Hymchwilwyr Ôl-raddedig, Ôl-ddoethurol a Gyrfa Gynnar i ddatblygu 'grisiau i ragoriaeth' ar gyfer gyrfaedd ymchwil, gan ddatblygu ein Hacademi Ddoethurol i ddarparu cymorth ôl-raddedig cynhwysol a strwythuredig i ddod yn adnabyddus am wthio ffiniau'r hyn y gall doethuriaeth fod.	- Yn unol â'r Strategaeth Ymchwil ac Arloesedd, bydd cyfleoedd yn cael eu hyrwyddo i'n holl fyfyrwyr, yn benodol y rheini o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn ymchwil. - Bydd hyn yn cefnogi grŵp amrywiol o bobl sy'n archwilio ac yn cyrchu'r llwybr ymchwil.
Sicrhau bod cefnogaeth ar gyfer seilwaith ymchwil ac arloesi yn weladwy ac yn hygyrch ym mhrif leoliadau ar y campysau.	Yn unol â'r Strategaeth Ymchwil ac Arloesi, bydd cymorth ymchwil ac arloesi yn fwy hygyrch i'n myfyrwyr.
Sicrhau bod profiad ein myfyrwyr a'n staff yn darparu amgylchedd addysgol cynhwysol sy'n grymuso, yn ddiwylliannol amrywiol ac yn galluogi ein myfyrwyr, staff a chyn-fyfyrwyr i ffynnu fel dinasyddion byd-eang sy'n rhyngddiwylliannol effeithiol.	Yn unol â'r Strategaeth Ymgysylltu Byd-eang, byddwn yn meithrin amgylchedd sy'n ddiwylliannol amrywiol a chynhwysol.
Cefnogi ein myfyrwyr i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu huchelgeisiau o fewn a thu allan i addysg uwch.	- Yn unol ag arfer gorau a nodir yng Nghofrestr Risg Cyfle Cyfartal y Swyddfa Myfyrwyr, bydd pob myfyriwr yn cael cyfle cyfartal i symud ymlaen i ganlyniad y maent yn ei ystyried yn adlewyrchiad cadarnhaol o'u profiad addysg uwch. - Bydd myfyrwyr yn cael cyfle cyfartal i gael mynediad at adnoddau sy'n ymwneud ag addysg uwch, megis llety addas. - Sefydlu modiwl hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i fyfyrwyr mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr
Thema: Hygyrchedd Ymgorfforedig	
Y Brifysgol i fabwysiadu a gweithredu trwy lens y Model Cymdeithasol o Anabledd	Bydd cydnabyddiaeth bod pobl yn cael eu hanalluogi gan rwystrau mewn cymdeithas, nid gan eu nam neu wahaniaeth. Gall y rhwystrau hyn fod yn rhai ffiesgol, fel adeiladau heb doiledau hygyrch. Neu gallant gael eu hachosi gan agweddau pobl at wahaniaeth, fel cymryd yn ganiataol na all pobl anabl wneud rhai pethau.

	Gwneir newidiadau adeiladol i ddileu rhwystrau a chynyddu mynediad, a gweithio i gydnabod meysydd o arfer gorau.
Hygyrchedd Corfforol Gosod CACH wrth galon newidiadau i'n hystad, gan wella cynwysoldeb a hygyrchedd ar draws ein campysau Dylunio profiadau a gofodau dysgu ac addysgu o fewn campysau wedi'u hail-bwrpasu sy'n addasadwy ac yn groesawgar yn ogystal â chysylltu â'n Polisi Amserlennu sy'n seiliedig ar egwyddorion.	- Yn unol â Strategaeth 2030 a'r Strategaeth Ystadau, byddwn yn darparu mannau addysgu, gweithio, ymchwil, chwaraeon, byw a chymdeithasol y gellir eu haddasu'n hawdd i ddiwallu anghenion ein myfyrwyr a'n staff. - Yn unol â Strategaeth 2030, bydd Met Caerdydd yn cael ei chydabod am ei phrofiad chwaraeon rhagorol a chaiff Met Caerdydd ei hadnabod fel 'Prifysgol Chwaraeon Cymru'. - Yn unol â'r Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Ymgysylltu â Myfyrwyr, bydd gan fyfyrwyr ymdeimlad gwell o berthyn, gan gefnogi cyflawniad eu huchelgais personol a chanlyniadau graddedigion.
Hygyrchedd Digidol Darparu amgylchedd digidol diogel y gellir ymddiried ynddo er mwyn i fyfyrwyr, staff, a phartneriaid allu gweithio, astudio, ymchwilio a chydweithio'n ddiogel, lle mae safonau diogelwch gwybodaeth yn cydymffurfio'n llawn. Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018, ar gyfer gwella hygyrchedd digidol i bob defnyddiwr ar draws holl amgylcheddau digidol y Brifysgol.	Yn unol â Pholisi presennol y Llywodraeth a'r Strategaeth Ddigidol, bydd newidiadau adeiladol yn cael eu gwneud i ddileu rhwystrau a chynyddu mynediad, a gweithio i gydnabod meysydd o arfer gorau.

Amcan 2: Hyrwyddo a gwreiddio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Brifysgol.

Cam Gweithredu	Canlyniad
Adolygu a sefydlu strwythur CACH priodol i sicrhau bod ystyriaethau CACH wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau a pholisi.	Yn unol â pholisi cydraddoldeb presennol, bydd trefniadau a ddeallir yn glir ar waith i asesu effaith polisiau ac arferion.
Parhau i asesu effaith polisiau a chynlluniau, tra hefyd yn ystyried lechyd a Llesiant myfyrwyr a staff, gan gynnwys iechyd meddwl, ac effeithiau ar bobl a allai brofi gwahaniaethu neu anfantais a/neu oherwydd nodweddion gwarchodedig.	Yn unol ag arfer gorau a nodwyd gan CCAUC, bydd ystyriaethau llesiant myfyrwyr a staff yn cael eu hymgorffori yn ein proses asesu effaith.
Sicrhau bod ein polisiau'n glir ac yn gadarn i arwain gweithredoedd ac ymddygiad, fel bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r hyn nad yw'n dderbyniol, pa gamau a all ddeillio o hynny, a sut i adrodd am unrhyw gwynion.	- Yn unol â'r Strategaeth Pobl, byddwn yn datblygu ac yn meithrin diwylliant lle mae gwahaniaeth yn cael ei werthfawrogi, a staff a myfyrwyr yn profi urddas a pharch. - Alinio â'n gwaith Gwella'r Diwylliant, cefnogi gwrth-hiliaeth a chreu amgylchedd lle mae gwrthdaro yn y gweithle yn cael ei drin trwy ddeialog agored a datrysiad cynnar
Gwrando ar lais y gweithiwr a pharhau i wella cysylltiadau da â chyflogeion lle mae ein pobl yn teimlo eu bod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.	- Gan adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol, bydd mecanweithiau clir yn cael eu sefydlu i ganiatáu i lais y gweithiwr gael ei glywed. - Yn unol â'r Strategaeth Pobl, byddwn yn annog yn rhagweithiol y defnydd o rwydweithiau staff fel ffordd o geisio adborth ar fentrau, cynlluniau a pholisiau newydd gyda staff yn cael amser wedi'i neilltuo i ymgysylltu'n ystyrlon.

	• Bydd Rhwydweithiau Staff yn parhau i dyfu a bydd llais pob aelod o staff a rhai grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu clywed. • Bydd arolygon y Brifysgol yn parhau i gael eu hadolygu a byddwn yn ceisio nodi ac ymateb i unrhyw dueddiadau a nodir. gan gymryd agwedd groestoriadol.
Cefnogi gweithrediad Cynllun CACH Bwrdd y Llywodraethwyr	• Bydd cynllun CACH Bwrdd y Llywodraethwyr yn cael ei wireddu: 1. Sicrhau recriwtio corff llywodraethu amrywiol iawn 2. Sicrhau amrywiaeth yn aelodaeth a chadeirio pwyllgorau 3. Galluogi'r corff llywodraethu i fod â dull gwybodus a blaengar o helpu i yrru nodau CACH ehangach y Brifysgol yn eu blaen.

Amcan 3: Hyrwyddo a datblygu amgylchedd diogel, cefnogol a theg.

Cam Gweithredu	Canlyniad
Thema: Iechyd a Llesiant	
Ystyried materion croestoriad, gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd, wrth ystyried sut rydym yn cefnogi ein poblogaethau amrywiol o staff a myfyrwyr.	Yn unol â Chynllun Gweithredu LHDT Llywodraeth Cymru, bydd arolygon y Brifysgol yn parhau i gael eu hadolygu a byddwn yn ceisio nodi ac ymateb i unrhyw dueddiadau a nodwyd. gan gymryd agwedd groestoriadol.
Cefnogi datblygiad strategaeth Diogelu Rhag Hunanladdiad Met Caerdydd.	Yn unol ag arfer gorau a nodwyd gan UUK, bydd y risg o hunanladdiad myfyrwyr yn cael ei leihau, a bydd staff yn teimlo'n fwy hyderus wrth ymateb i ddatgeliadau.
Archwilio gweithrediad y Siarter Rhianta Corfforaethol	Yn unol â mentrau Llywodraeth Cymru, mae gan fyfyrwyr sydd â phrofiad o Ofal sy'n mynychu Met Caerdydd ymdeimlad cryf o gymuned a pherthyn.
Gweithredu Strategaeth Llesiant ac Iechyd y Brifysgol, gan ddefnyddio fframwaith strategol Stepchange ar gyfer ymagwedd prifysgol gyfan at iechyd meddwl a lles mewn prifysgolion.	- Bydd amgylchedd sy'n ffafriol i iechyd meddwl a lles da yn cael ei greu gan ddefnyddio arfer gorau. - Darperir cymorth academiaidd ac anacademaidd priodol gan ganiatáu ar gyfer effaith gadarnhaol ar les myfyrwyr a llwyddiant academiaidd.
Sicrhau cydweithio parhaus a rhannu arfer gorau sector mewn perthynas ag Iechyd a Llesiant	Bydd y Brifysgol yn ymgysylltu'n effeithiol â byrddau iechyd a sefydliadau trydydd sector, gan gynnwys defnyddio diffiniadau y cytunwyd arnynt o iechyd meddwl i wella'r modd y caiff anghenion cymorth iechyd meddwl myfyrwyr eu cyfathrebu.
Archwilio ac ymgorffori egwyddorion Ymrwymiad i Fyfyrwyr Anabl	Gweithredu Cynllun Prosiect Ymrwymiad i Fyfyrwyr Anabl, gan ddarparu profiad gwell i fyfyrwyr anabl mewn addysg uwch.

Thema: Gwella ein Diwylliant	
Adeiladu ar ein gwaith parhaus Athena Swan a Siarter Cydraddoldeb Hiliol, gan gefnogi rhoi cynlluniau gweithredu perthnasol ar gyfer y brifysgol gyfan ar waith.	• Y Brifysgol i ennill Gwobr Arian Athena SWAN Sefydliadol a rhoi'r cynllun gweithredu cysylltiedig ar waith. • Pob ysgol ac adran berthnasol i ddal gwobrau Athena SWAN. • Y Brifysgol i ennill Gwobr Efydd y Siarter Cydraddoldeb Hiliol a rhoi'r cynllun gweithredu cysylltiedig ar waith. • Archwilio fframweithiau ategol perthnasol eraill ar gyfer gwreiddio a gwella CACH mewn Addysg Uwch.
Trwy ein Gwaith Cydraddoldeb Hiliol, cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru Llywodraeth Cymru.	• Yn unol â Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru Llywodraeth Cymru, bydd y Brifysgol yn: ◦ Adolygu polisiau a gweithdrefnau recriwtio presennol drwy lens gwrth-hiliaeth. ◦ Cyflawni nod siarter cydraddoldeb hiliol ◦ Cydweithio gyda, a chynnwys, myfyrwyr ac undebau fel partneriaid wrth gyflwyno Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru.
Cymryd ymagwedd draws-Brifysgol yn unol ag argymhellion UUK ar aflonyddu hiliol mewn addysg uwch	• Ymateb i argymhellion a gwreiddio arferion gorau'r sector.
Cymryd ymagwedd draws-Brifysgol yn unol ag argymhellion Newid y Diwylliant UUK, gan ddefnyddio arferion gorau'r sector a'r canllawiau a gynhyrchwyd i gymryd camau i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, gan gynnwys wrth reoli cwynion am gamymddwyn rhywiol a mentrau atal rhagweithiol.	• Gwreiddio arferion gorau'r sector. • Gyda chefnogaeth y tîm Datblygu Sefydliadol, cyflwyno rhaglenni hyfforddi perthnasol fel hyfforddiant VAWDASV. • Monitro effeithiolrwydd yr hyfforddiant hwn.
Parhau i gryfhau dulliau ataliol o fynd i'r afael â thrais, aflonyddu a cham-drin staff, myfyrwyr ac ymwelwyr, ym mhob ffurf, waeth beth fo'u hunaniaeth.	• Ymgorffori ymyrraeth gynnar a dulliau ataliol ar gyfer staff a myfyrwyr.

	• Bydd arolygon y Brifysgol yn parhau i gael eu hadolygu a byddwn yn ceisio nodi ac ymateb i unrhyw dueddiadau a nodwyd, gan ddefnyddio dull croestoriadol.
Byddwn yn ymgorffori ystyriaethau CACH ac yn monitro ac yn adrodd ar gwynion myfyrwyr a staff.	• Bydd y brifysgol yn ceisio nodi ac ymateb i unrhyw dueddiadau a nodir, gan ddefnyddio dull croestoriadol. • Cynnal proses glir a chadarn ar gyfer codi cwynion, pryderon ac adborth. • Defnyddio gwybodaeth berthnasol i nodi meysydd i'w gwella.
Parhau i ddatblygu rhaglen fywiog a chynhwysol o gyfleoedd i wella integreiddio rhwng staff a myfyrwyr cartref a rhyngwladol.	• Gwell ymdeimlad o berthyn i staff a myfyrwyr cartref a rhyngwladol, gan feithrin amgylchedd gweithio a dysgu mwy cadarnhaol i bawb.
Cefnogi ac adeiladu ar ein statws Prifysgol Noddfa, sy'n hygyrch ac yn groesawgar i geiswyr lloches a ffoaduriaid	• Parhau i gynnig nifer o gyfleoedd ysgoloriaeth israddedig ac ôl-raddedig. • Adeiladu ar arfer gorau presennol, gan weithio ar y cyd â'r sector.

Amcan 4: Arwain y ffordd fel Sefydliad Addysg Uwch cynhwysol ac amrywiol a chyflogwr.

Cam Gweithredu	Canlyniad
Thema: Gwella ein Data	
Parhau i ddatblygu a gwella ein data cydraddoldeb a gwneud penderfyniadau gwybodus a yrrir gan ddata.	- Parhau i wella casglu a dadansoddi data er mwyn ystyried croestoriad a llywio polisi a chamau gweithredu - Yn unol â'r Strategaeth Pobl, cesglir data o ansawdd sy'n rhoi mewnwelediad diriaethol i wneud gwelliannau, ac i helpu i wneud penderfyniadau hollbwysig yn seiliedig ar dystiolaeth a yrrir gan ddata.
Cefnogi dysgu a datblygiad parhaus llythrennedd data CACH a dadansoddi er mwyn galluogi partneru â'r busnes i droi mewnwelediadau yn gamau gweithredu.	Dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o ddata CACH a sut y gellir ei ddefnyddio i gefnogi a gwella arferion prifysgolion.
Parhau i sicrhau bod trefniadau ar waith i nodi a chyhoeddi gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb.	Cyhoeddi'r Adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn flynyddol yn amlinellu'r cynnydd parhaus.
Parhau i weithredu Arolygon y Brifysgol, gan ddatblygu sylfaen dystiolaeth i wneud penderfyniadau gwybodus ar brofiadau ein cymuned.	Data a ddefnyddir i nodi tueddiadau presennol a datblygol, gan ganiatáu ar gyfer penderfyniadau gwybodus.
Thema: Tâl	
Cyhoeddi gwybodaeth am y Bwlch Cyflog Rhywedd, Ethnigrwydd ac Anabledd yn unol ag argymhellion gov.uk a defnyddio arfer gorau'r sector.	Cyhoeddi gwybodaeth berthnasol am fylchau cyflog yn flynyddol, gan amlinellu camau gweithredu a nodwyd i leihau bylchau a nodwyd.
Monitro a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, gan gynnwys gwahaniaethau cyflog ar draws grwpiau perthnasol.	Adolygiad parhaus o gyflog a chamau gweithredu perthnasol wedi'u nodi.

Sefydli a chyfleu cynllun gweithredu mewn perthynas â gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau	• Adolygiad parhaus o gyflog y rhywiau a chamau gweithredu perthnasol wedi'u nodi.
Thema: Ymateb i Heriau Parhaus	
Parhau i asesu effeithiau parhaus y coronafeirws ar aelodau o gymuned Met Caerdydd a rhoi cymorth ar waith lle bo'n briodol.	• Yn unol ag arfer gorau a nodir yng Nghofrestr Risg Cyfle Cyfartal y Swyddfa Myfyrwyr, monitro a nodi materion a allai ddeillio o'r pandemig coronafeirws. • Cefnogaeth yn ei lle o ganlyniad i unrhyw wybodaeth a sgiliau gwahaniaethol a'r gallu i addasu i amgylchedd addysg uwch.
Thema: Profiad y Gweithiwr	
Darparu dysgu a datblygu sy'n hygyrch, yn berthnasol, yn ddeniadol ac wedi'u llywio gan gynllunio gweithlu strategol a datblygu talent i gefnogi ein blaenoriaethau strategol.	• Ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o hyfforddiant staff a datblygiad gyrfa • Mae gan staff dealltwriaeth a gwybodaeth glir o'r ddyletswydd gyffredinol a nodir unrhyw anghenion hyfforddi pellach. • Rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth niwroamrywiaeth ar waith gan ganiatáu gwell dealltwriaeth a chreu amgylchedd mwy cynhwysol, cefnogol a chynhyrchiol.
Gwella rhaglenni modiwlaid yn barhaus i ddatblygu ystod amrywiol o arweinwyr y dyfodol. Parhau i ddatblygu hyfforddiant arweinyddiaeth a rheolaeth fewnol, gyda ffocws ar arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol i gefnogi perfformiad uchel. Bydd hyn yn cynnwys darparu mynediad i rhaglenni datblygu allanol	• Cefnogir rhaglenni arweinyddiaeth trwy'r tîm CACH. • Ystod fwy amrywiol o staff yn cyrchu rhaglenni arweinyddiaeth.
Parhau i gefnogi datblygiad parhaus cyfres datblygu rheolaeth hanfodol Met Caerdydd trwy Raglen CACH Manage@Met	• Gwell gwybodaeth am CACH o fewn amgylchedd AU gan gefnogi meithrin gallu, gallu a chysondeb rheolaeth llinell.
Parhau i weithredu a datblygu cynllun mentora i gefnogi cydweithwyr llai profiadol gyda ffocws penodol ar unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.	• Cefnogi rhaglenni mentora trwy'r tîm CACH. • Grŵp mwy amrywiol o fentoriaid a mentoreion yn defnyddio'r cynllun.

Monitro gweithrediad Cod Ymarfer REF y Brifysgol i sicrhau tegwch a chynhwysiant wrth ddatblygu cyflwyniadau REF	Ystyriaethau CACh wedi'u gwreiddio drwy gydol y broses REF a chynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb trylwyr.
Ffocws a datblygiad parhaus ar ein rhaglen hyfforddi Darllenydd i Athrawon llwyddiannus	- Cynnydd yn nifer y merched yn Reader ac Athro. - Cynnydd yn nifer y bobl o grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n symud i Ddarllenydd ac Athro.
Parhau â'n taith Hyderus o ran Anabledd i ddod yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd dilys	Cymryd camau i symud o fod yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd i Arweinydd Hyderus o ran Anabledd a chael hunanasesiad y Brifysgol wedi'i ddilysu.
Thema: Recriwtio	
Adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn lleol ac yn genedlaethol a chefnogi eu hanghenion trwy hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.	Cynnydd parhaus yn amrywiaeth ein gweithlu.
Monitro a chefnogi gweithrediad y prosiect trawsnewid recriwtio, yn benodol y system e-recriwtio newydd i sicrhau proses fwy effeithlon a chynhwysol.	- Proses recriwtio fwy hygyrch sy'n caniatáu ar gyfer mwy o amrywiaeth o ymgeiswyr. - Cefnogi monitro effaith y system newydd.

Amcan 5: Ymgysylltu â'n Cymuned

Cam Gweithredu	Canlyniad
Byddwch yn entrepreneuraidd, gyda gweithgareddau arloesi sy'n cwrddu cyfalaf deallusol ac allbynnau'n cael eu darparu er lles dinesig ehangach. Bydd creu cwmnïau deillio, mentrau cymdeithasol a busnesau newydd i raddedigion yn rhan annatod o'n gweithgareddau o ddydd i ddydd.	Yn unol â'r Strategaeth Ymchwil ac Arloesi, mae ystyriaethau CACH wedi'u hymgorffori mewn gweithgareddau arloesi.
Cynyddu ein cydweithrediad â phartneriaid a'n cymuned leol	Yn unol â'r Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig cynyddu amrywiaeth y partneriaid a'r grwpiau cymunedol rydym yn ymgysylltu â nhw.
Ehangu cyrhaeddiad ein staff a'n myfyrwyr drwy wella prosiect Colegau Agored Caerdydd, ehangu'r fenter Campws Agored, a cheisio codi dyheadau a safonau addysg ar draws ysgolion a cholegau Cymru ac yn unol â deddfwriaeth Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. .	Codi dyheadau a safonau addysg ar draws ysgolion a cholegau Cymru.
Gweithio gyda'n cymuned i gyflwyno amrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol sy'n defnyddio ehangder profiad prifysgol a fydd yn sail i'n hymrwymiad i amrywiaeth, rhyddid ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol.	Datblygwyd nifer o brosiectau allgymorth, dan arweiniad myfyrwyr, i gefnogi a grymuso unigolion lleol a'n cymunedau.
Alinio â'r bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach ranbarthol i gyflwyno cyrsiau yn y gymuned ac ar y campws i godi dyheadau a hyrwyddo dilyniant i Addysg Uwch.	Trwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol, byddwn yn denu ac yn cadw myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch ac yn cefnogi eu dilyniant ar daith y myfyriwr.

Cyfeiriadau:

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus: dyletswyddau penodol i Gymru (nodiadau canllaw AU ymlaen llaw)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol EHRC: Ydy Cymru'n Decach? 2023
- Addysg uwch ddiogel a chynhwysol CCAUC: cefnogi addysg cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Adroddiad i CCAUC ar hil, mynediad a llwyddiant mewn AU: Gwneud iddo Ddigwydd
- Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru Llywodraeth Cymru
- Cynllun Gweithredu LGBTQ+ Llywodraeth Cymru i Gymru
- Siarter Iechyd Meddwl Prifysgol Student Minds
- Newid Diwylliant UUK: Blwyddyn yn Ddiweddarach: Asesiad o strategaethau i fynd i'r afael â chamymddwyn rhywiol, troseddau casineb ac aflonyddu sy'n effeithio ar fyfyrwyr prifysgol
- Newid diwylliant UUK: mynd i'r afael â chamymddwyn rhywiol rhwng staff a myfyrwyr
- Trais yn erbyn menywod cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026
- Mynd i'r Afael ag Aflonyddu Hiliol gan EHRC: Herio Prifysgolion
- Prifysgolion Mwy Diogel Hunanladdiad UUK
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd Strategaeth 2030